Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Y Castell**
**Stryd y Prior**
**Cydweli**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA17 4TR**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Y Castell

Mae Ysgol Y Castell yn nhref Cydweli yn Sir Gaerfyrddin. Mae 258 o ddisgyblion ar y gofrestr, rhwng 3 ac 11 oed, gan gynnwys 11 sy'n mynychu'r meithrin yn rhan-amser. Mae'r ysgol yn trefnu ei disgyblion yn wyth dosbarth un oedran a thri dosbarth oedran cymysg, yn ogystal â'r meithrin.

Mae tua 28% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 18%. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 28% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Daw ychydig iawn o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol neu mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Medi 2015. Cynhaliwyd yr arolygiad blaenorol o'r ysgol ym mis Mehefin 2014.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=cy

## Crynodeb

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau mynychu Ysgol Y Castell. Mae ganddynt berthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda staff ac maent yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw trefniadau'r ysgol i sicrhau diogelwch disgyblion yn ddigon trylwyr.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni safonau addas mewn Saesneg a mathemateg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Gwnânt gynnydd da o ran datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Fodd bynnag, o ganlyniad i her annigonol a diffyg disgwyliadau cyson uchel, mae gormod o ddisgyblion nad ydynt yn gwneud cynnydd digonol, ar y cyfan. Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn eu difyrru. Fodd bynnag, mae llawer o wersi a llawer o'r wythnos amserlenedig yn cynnwys gweithgareddau sy'n cael eu harwain gormod gan oedolion. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau ehangach a dod yn ddysgwyr annibynnol medrus.

Mae cyfran uchel o dîm arweinyddiaeth yr ysgol wedi gadael yr ysgol yn ddiweddar, ac mae diffyg eglurder ynglŷn â rolau, cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd. Nid oes gan staff ac arweinwyr weledigaeth ar y cyd ar gyfer gwella'r ysgol. Mae perthnasoedd gwaith toredig rhwng staff yn golygu bod cynnal a gwella ansawdd gwaith yr ysgol yn heriol. Nid yw gwaith hunanwerthuso a gwella yn sicrhau bod yr ysgol yn nodi ac yn mynd i'r afael â'r meysydd pwysicaf i'w gwella.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant brys** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant brys** |

## Argymhellion

A1 Mynd i’r afael â’r diffygion mewn diogelu ac iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Gwella arweinyddiaeth ar bob lefel a hyrwyddo cydweithio effeithiol ymhlith pob un o’r staff

A3 Gwella effeithiolrwydd hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

A4 Sicrhau bod gan staff ddisgwyliadau uchel o gyflawniad disgyblion a’u bod yn rhoi tasgau ac adborth i ddisgyblion sy’n eu herio i wneud y cynnydd y maent yn abl i’w wneud

A5 Gwella presenoldeb

A6 Sicrhau cwricwlwm cytbwys sy’n caniatáu amser priodol i ddisgyblion ddatblygu ystod lawn y medrau, a mwy o gyfleoedd iddynt ddysgu’n annibynnol

A7 Sicrhau bod gwybodaeth yr ysgol am gynnydd disgyblion yn gywir ac yn cael ei defnyddio’n dda i lywio’r camau nesaf mewn dysgu

## Beth sy’n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o’r farn fod angen mesurau arbennig mewn perthynas â’r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwelliant**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau llythrennedd, rhifedd a medrau cymdeithasol ar y lefel sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r mwyafrif ohonynt yn parhau i ddatblygu'r medrau hyn yn briodol. Fodd bynnag, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gormod o ddisgyblion o bob lefel gallu, ond yn enwedig y rhai mwy abl, nad ydynt yn gwella eu medrau llythrennedd a rhifedd yn ddigon da.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau siarad a gwrando effeithiol. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at drafodaethau dosbarth. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 1 yn gwneud sylwadau defnyddiol am anfanteision safleoedd tirlenwi a manteision ailgylchu. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer ohonynt yn cyfathrebu'n glir ac yn defnyddio ystod dda o eirfa wrth drafod eu gwaith neu fynegi eu safbwyntiau.

Mae llawer o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu dealltwriaeth gynnar briodol o seiniau llythrennau. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon ac ystod addas o dechnegau eraill i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd addas â'u medrau darllen dros gyfnod, ac erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn darllen gyda chywirdeb a rhuglder priodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau darllen. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn darllen gyda mynegiant a rhuglder priodol, gan roi barn am y plot a gwneud rhagfynegiadau synhwyrol ynglŷn â'r hyn a allai ddigwydd nesaf mewn stori. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, mae ansawdd dealltwriaeth disgyblion o'r hyn y maent yn ei ddarllen yn amrywiol ac nid yw llawer o ddisgyblion hŷn yn defnyddio medrau darllen ar lefel uwch yn ddigon da. Er enghraifft, mewn llawer o achosion, mae disgyblion yn copïo gwybodaeth y maent yn dod o hyd iddi ar y rhyngrwyd yn hytrach na dethol gwybodaeth allweddol o'r testun.

Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o ran datblygu eu medrau ysgrifennu. Er enghraifft, mae disgyblion mwy abl ym Mlwyddyn 1 yn defnyddio iaith berswadiol yn dda wrth ysgrifennu llythyr manwl i archfarchnad leol i fynegi siom am ddefnydd y siop o blastig. Fodd bynnag, erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, prin yw'r disgyblion sy'n ysgrifennu darnau sy'n ddigon hir yn annibynnol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn ysgrifennu gan ddefnyddio ystod addas o fathau o destun ffuglen a ffeithiol. Fodd bynnag, mae gormod o ddisgyblion nad ydynt yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir neu'n defnyddio atalnodi'n ddigon da i sicrhau bod ystyr eu hysgrifennu'n glir. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn defnyddio ystod dda o eirfa ddychmygus a syniadau creadigol yn eu hysgrifennu, er enghraifft wrth greu cofnod dyddiadur am anturiaethau Capten Scott. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion ar draws cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n greadigol ac yn ddigonol estynedig yn ddigon da. Mae safon cyflwyniad gwaith disgyblion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2, yn anghyson, ac nid yw llawer o ddisgyblion yn cymryd digon o falchder yn eu gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau dysgu Cymraeg, ac maent yn falch o'r hwiangerdd Gymraeg enwog 'Hen fenyw fach Cydweli'. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafaredd Cymraeg yn briodol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn hyderus yn Gymraeg fel rhan o arferion dyddiol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn briodol. Erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion yn ysgrifennu disgrifiadau estynedig o ffrind, ac maent yn dechrau darllen llyfrau stori byr gyda dealltwriaeth a rhuglder. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i wersi Cymraeg dynodedig yn ddigon aml.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemategol yn briodol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o rif, ac mae llawer ohonynt yn dechrau cymhwyso eu medrau rhifedd yn dda mewn tasgau annibynnol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn defnyddio eu medrau cyfrif i greu cwrs rhwystrau yn yr ardal awyr agored, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion neidio, sgipio a dal fesul pump a deg. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i ddatblygu eu gwybodaeth am rif ac ystod o gysyniadau mathemategol, fel siâp, mesur a thrin data yn briodol, er enghraifft wrth gyfrifo nifer gymedrig gwahanol fathau o grwbanod sydd mewn perygl ar Ynysoedd y Galapagos. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn ddigon aml na chyson i'r un safon ag yn eu gwersi mathemateg.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau TGCh yn briodol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae disgyblion iau yn meddwl yn rhesymegol i raglennu robotiaid tegan i symud ar draws grid at Tedi Twt. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn creu cronfeydd data a graffiau addas, er enghraifft i gofnodi'r amser y mae'n ei gymryd i rew doddi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynd at gyfrifon ar-lein ac yn arbed a threfnu eu gwaith mewn ffolderi gydag annibyniaeth briodol.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Digonol ac angen gwelliant

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barchus a chwrtais tuag at ei gilydd, staff a phobl sy'n ymweld â'r ysgol. Dangosant hyder, er enghraifft wrth gyfrannu eu syniadau at drafodaethau yn y dosbarth. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymddwyn yn dda mewn gwersi. Mae llawer ohonynt yn symud o gwmpas yr ysgol mewn modd pwyllog a threfnus. Mae disgyblion hŷn yn glir ynglŷn â disgwyliadau'r ysgol o'u hymddygiad, ac fe gânt eu cymell yn dda gan ei system ar gyfer cydnabod ymddygiad ac agweddau cadarnhaol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a saff yn yr ysgol, ac maent yn gwybod gyda phwy y gallant siarad os byddant yn poeni neu os bydd ganddynt broblem. Maent yn ymwybodol o sut i aros yn ddiogel ar-lein. Er enghraifft, maent yn deall bod rhaid iddynt beidio â rhannu cyfrineiriau neu wybodaeth bersonol gyda phobl eraill.

Mae ystod addas o grwpiau disgyblion, fel y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, yn helpu gwella agweddau ar amgylchedd yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o aelodau o'r grwpiau hyn yn teimlo bod athrawon ac arweinwyr yn gwrando'n ofalus, ac yn gweithredu yn unol â'u hawgrymiadau. Er enghraifft, bu athrawon yn gweithio gyda'r Criw Cymraeg i sefydlu system i greu ardaloedd ar yr iard chwarae ar gyfer gwahanol fathau o chwarae. Fodd bynnag, er bod y mentrau hyn yn fuddiol, ar y cyfan, nid oes gan ddisgyblion lais digonol i ddylanwadu ar waith yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod sut i aros yn ddiogel ac yn deall gwerth ymarfer corff. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol, gan gynnwys y filltir ddyddiol. Mae disgyblion hŷn yn ymdrin â heriau corfforol yn hyderus, ac yn deall budd dringo'r Wyddfa a Phen-y-Fan i'w lefelau ffitrwydd a'u gallu i ddyfalbarhau. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod sut i wneud dewisiadau synhwyrol am fwyta'n iach, a gwnânt ddefnydd da o siop ffrwythau'r ysgol. Mae disgyblion sy'n mynychu clwb garddio yn datblygu eu gwybodaeth am fwydydd iach ymhellach trwy dyfu eu llysiau eu hunain.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos eu bod yn barod i ddysgu ar ddechrau gwersi. Maent yn ymgymryd yn dda â gweithgareddau ac yn mwynhau eu dysgu, ar y cyfan. Maent yn dal ati i ganolbwyntio am gyfnod addas wrth weithio'n annibynnol neu mewn grwpiau bach. Er enghraifft, ar ddechrau cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn cydweithio'n dda wrth iddynt ddyfalbarhau i greu fideo o helfa drysor fel rhan o'u 'tasg' annibynnol. Fodd bynnag, mewn gormod o wersi, mae disgyblion yn dibynnu'n ormodol ar gyfarwyddyd a chymorth gan oedolion, ac nid ydynt yn cymryd digon o gyfrifoldeb am eu dysgu. Nid oes gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth glir o ba mor dda y maent yn gwneud cynnydd na'r hyn mae angen iddynt ei wneud i wella. O ganlyniad, mae eu gallu i weithio ar eu pen eu hunain yn gyfyngedig. Mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn cyfrannu syniadau defnyddiol a dychmygus am bethau yr hoffent eu gwneud yn eu hardaloedd ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, nid yw disgyblion yn mynegi barn am beth maent yn ei ddysgu, a sut, yn ddigon aml.

Mae'r duedd ostyngol ym mhresenoldeb disgyblion dros y pedair blynedd ddiwethaf yn destun pryder sylweddol. O gymharu ag ysgolion tebyg, mae cyfraddau presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn gyson yn y 25% isaf am y tair blynedd ddiwethaf. Yn ychwanegol, mae cyfraddau absenoldeb parhaus yn dangos tuedd ar i fyny dros y pedair blynedd ddiwethaf.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwelliant**

Mae pob un o'r staff yn ymdrechu i sicrhau perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda disgyblion. Yn gyffredinol, maent yn rheoli ymddygiad yn dda ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o sut dylai disgyblion ymddwyn. Maent yn gwobrwyo ymddygiad cadarnhaol yn effeithiol. Mae staff yn delio ag achosion o ymddygiad gwael yn dyner ond yn gadarn.

Mae athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol dda ac yn cynllunio llawer o weithgareddau sy'n ymgysylltu â disgyblion yn dda ac yn ysgogi eu diddordeb. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn mwynhau ymchwilio i'r modd y mae gwahanol ddeunyddiau yn arwain at lefelau amrywiol o ffrithiant pan gânt eu defnyddio fel cebl ar gyfer model gwifren wib. Fodd bynnag, mewn gormod o achosion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2, caiff gweithgareddau eu harwain gan oedolion yn ormodol. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau annibynnol, cydweithredol a'u medrau meddwl. Yn ychwanegol, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau nad ydynt yn herio disgyblion i gyflawni ar y lefel y gallant ei chyflawni yn rhy aml, ac nid ydynt yn dangos disgwyliadau cyson uchel o ddisgyblion. O ganlyniad, mae gormod o ddisgyblion yn cyflwyno'u gwaith yn ddiofal ac nid ydynt yn gwneud cynnydd digonol yn ystod gwersi a thros gyfnod.

Mewn ychydig o ddosbarthiadau, mae athrawon yn rhoi adborth effeithiol i ddisgyblion sy'n dangos yn glir y camau y mae angen iddynt eu cymryd i wella eu medrau ac ansawdd eu gwaith.  Maent yn trefnu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymateb i'w sylwadau a gwneud gwelliannau.  Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol, ac mewn gormod o achosion, nid yw adborth athrawon yn arwain at welliannau ym medrau a gwybodaeth disgyblion.

Mae cwricwlwm cynlluniedig yr ysgol yn darparu ehangder addas o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb ac yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddysgwyr.  Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio cyfleoedd priodol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion.  Maent yn sicrhau bod disgyblion yn dysgu nodweddion ystod dda o fathau o destun ffuglen a ffeithiol.  Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig ac ar lefel ddigon heriol yn ddigon aml.  Mae athrawon yn cynllunio'n briodol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a TGCh ar draws y cwricwlwm.  Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd mewn pynciau eraill wedi'u datblygu cystal.

Yn y cyfnod sylfaen, mae athrawon yn rhoi cyfleoedd addas i ddisgyblion gyfrannu eu syniadau at gynllunio testunau.  Mae athrawon yn defnyddio syniadau'n greadigol i addasu ardaloedd o fewn ardaloedd y ddarpariaeth estynedig a pharhaus.  Er enghraifft, fe wnaeth stori'r Tywysog a'r Broga ysbrydoli disgyblion Blwyddyn 2 i greu siop ddiodydd yn eu hardal chwarae rôl.  Yn ddiweddar, mae athrawon wedi rhoi cyfle i ddisgyblion ym Mlynyddoedd 3 a 4 gyfrannu syniadau ar gyfer tasgau annibynnol.  Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae hyn, ac at ei gilydd, nid yw athrawon yng nghyfnod allweddol 2 yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at beth maent yn ei ddysgu, a sut.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion y cyfnod sylfaen yn briodol, ar y cyfan.  Mae staff yn gwneud defnydd da o'r ystafell ddosbarth a'r amgylchedd awyr agored i greu ardaloedd diddorol sydd wedi'u dylunio i ddatblygu medrau dysgu'n annibynnol disgyblion.  Fodd bynnag, mae dyraniad sylweddol gweithgareddau amserlenedig wedi'u harwain gan oedolion, yn enwedig yn ystod y bore, yn cyfyngu ar yr amser sydd ar gael i ddisgyblion elwa ar y ddarpariaeth hon.  O ganlyniad, nid yw hyn yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol, medrus ac uchelgeisiol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o gysylltiadau â'r gymuned leol i wella'r cwricwlwm trwy brofiadau cyfoethog a pherthnasol, er enghraifft ymweliadau â Chastell Cydweli, yr eglwys leol a pharciau.  Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion weithio ochr yn ochr ag arlunwyr lleol i ddatblygu eu medrau creadigol; er enghraifft, maent yn gweithio gydag arlunydd graffiti i greu murlun sy'n hyrwyddo cyfeillgarwch ymhlith disgyblion.

Ceir darpariaeth effeithiol i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion o fewn gwersi Cymraeg penodol.  Mae hyn yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn raddol wrth iddynt symud trwy'r ysgol.  Mae athrawon yn hyrwyddo agweddau ar dreftadaeth a diwylliant Cymru yn llwyddiannus, er enghraifft trwy weithio gydag awdur lleol o Gymru a dysgu am y cysylltiad hanesyddol rhwng Cymru a Phatagonia.  Mae gwasanaethau Cymraeg wythnosol a'r Eisteddfod ysgol flynyddol yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion berfformio dawnsio traddodiadol, a chanu ac adrodd cerddi yn Gymraeg.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol ac angen gwelliant brys

Mae gan yr ysgol ystod dda o ddarpariaeth, gan gynnwys rhaglenni ymyrraeth penodol, i gefnogi lles disgyblion ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol ychwanegol. Er enghraifft, mae'r gofod dynodedig ar gyfer lles disgyblion, sy'n cael ei adnabod fel y 'Cwtch', yn rhoi gofod diogel i ddisgyblion a man cyswllt cyfarwydd lle gallant drafod unrhyw bryderon neu broblemau y gallent fod yn eu hwynebu. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn teimlo eu bod yn cael gofal da a gwnânt gynnydd da o ran datblygu eu medrau cymdeithasol. Mae athrawon yn nodi disgyblion y credant eu bod yn fwy abl. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth ychwanegol gyfyngedig ar gyfer y disgyblion hyn i sicrhau eu bod yn cyflawni ar y lefel y gallant ei chyflawni.

Mae staff yn gweithio'n dda gydag ystod eang o wasanaethau arbenigol, gan gynnwys seicolegwyr addysg a therapyddion lleferydd ac iaith, i ddarparu cyngor a chymorth buddiol ar gyfer disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r targedau a osodir gan athrawon yng nghynlluniau addysg unigol disgyblion yn ddigon penodol na mesuradwy. O ganlyniad, ni all yr ysgol werthuso cynnydd disgyblion tuag at gyflawni'r targedau hyn yn drylwyr, ac nid yw'n glir a yw ymyriadau a chymorth ychwanegol yn gweithio'n llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn cynnwys rhieni disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac yn rhoi gwybodaeth reolaidd iddynt. Mae'n darparu gwybodaeth addas am sut gall rhieni gynorthwyo eu plentyn gartref; er enghraifft, mae staff yn cyflwyno gweithdai ar ddarllen a rhifedd. Mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth gyfyngedig am gynnydd grwpiau eraill o ddisgyblion. Er enghraifft, mae adroddiadau diwedd blwyddyn yn tueddu i fod yn rhai generig ac nid ydynt yn adlewyrchu cryfderau a meysydd i'w gwella pob disgybl yn ddigon da.

Mae system yr ysgol ar gyfer olrhain a gwerthuso cynnydd disgyblion yn gyfyngedig. Nid oes gan yr ysgol brosesau effeithiol ar waith i sicrhau bod y wybodaeth y mae athrawon yn ei chofnodi yn ei system olrhain yn gywir. Yn ychwanegol, nid yw arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd i staff drafod cynnydd disgyblion a myfyrio ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth. O ganlyniad, nid oes gan yr ysgol ddealltwriaeth gadarn o b'un a yw grwpiau penodol o ddisgyblion, fel disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud digon o gynnydd dros gyfnod, a ph'un a yw mentrau newydd yn arwain at welliannau mewn deilliannau ar gyfer disgyblion. Yn rhy aml, nid yw athrawon yn defnyddio gwybodaeth asesiadau'n ddigon da i lywio cynllunio profiadau dysgu.

Mae'r ysgol yn archwilio presenoldeb disgyblion yn agos, ac yn nodi disgyblion y mae eu presenoldeb yn destun pryder. Fodd bynnag, nid yw strategaethau ar gyfer lleihau amlder absenoldeb disgyblion yn ddigon trylwyr, ac mae eu heffaith yn gyfyngedig.

Ceir trefniadau priodol i annog bwyta ac yfed yn iach. Mae'r ysgol yn darparu ystod o gyfleoedd i ddisgyblion ystyried eu hiechyd a'u lles trwy weithgareddau corfforol rheolaidd, fel y 'filltir ddyddiol' ac wythnosau dynodedig gyda ffocws ysgol gyfan ar fyw yn iach. Mae ystod briodol o weithgareddau allgyrsiol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn chwaraeon, gan gynnwys pêl-droed a chriced.

Mae'r ysgol yn trefnu ystod addas o grwpiau i ddisgyblion ddatblygu eu medrau arwain. Er enghraifft, mae athrawon yn trefnu i arweinwyr digidol gynorthwyo

disgyblion iau i ddatblygu eu medrau TGCh. Fodd bynnag, er bod grwpiau disgyblion yn cyfrannu'n dda at redeg yr ysgol o ddydd i ddydd, nid yw arweinwyr yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar benderfyniadau am addysgu a'r cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i gefnogi datblygiad moesol a chymdeithasol disgyblion trwy ei rhaglenni dysgu personol a chymdeithasol. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir, er enghraifft yn ystod gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar hawliau plant. Mae'r ysgol yn gweithio'n briodol i ddatblygu synnwyr disgyblion o gymuned. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn gweithio gyda'r gymuned leol a'r cyngor ysgol i ddatblygu gardd synhwyraidd yn y pentref.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac maent yn destun pryder difrifol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Anfoddhaol ac angen gwelliant brys**

Mae'r pennaeth a'r staff yn ymdrechu'n gyson i ddarparu profiadau dysgu difyr ar gyfer disgyblion, ac maent yn rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n hapus ac yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae perthnasoedd gwaith toredig rhwng aelodau staff yn rhwystro effeithiolrwydd gwaith yr ysgol yn sylweddol, ac yn cyfyngu ar ei gallu i gynnal a gwella ansawdd yr addysg ar gyfer ei disgyblion. Er enghraifft, mae'n rhwystro rhannu arfer dda bresennol, fel elfennau o addysgu effeithiol yn y cyfnod sylfaen. Yn ychwanegol, nid yw arweinwyr wedi sefydlu systemau effeithiol i ddiogelu disgyblion.

Mae cyfran uchel o uwch arweinwyr yr ysgol wedi gadael eu swyddi yn ddiweddar. Mae'r pennaeth wedi dechrau gweithio gyda'r corff llywodraethol i roi strwythur arweinyddiaeth newydd ar waith. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynghylch rolau, cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd ac nid oes gan arweinwyr a staff weledigaeth ar y cyd ar gyfer gwella'r ysgol na disgwyliadau digon uchel ar gyfer cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol. Mae llawer ohonynt yn ymwelwyr rheolaidd sy'n cynorthwyo ag agweddau ar waith yr ysgol, fel mynd â disgyblion ar ymweliadau addysgol. Fodd bynnag, mae eu gwybodaeth am waith yr ysgol yn gyfyngedig ac maent yn dibynnu'n ormodol ar y wybodaeth a ddarperir iddynt gan y pennaeth. Nid ydynt yn darparu her effeithiol nac yn mynd ar drywydd penderfyniadau yn ddigon trylwyr, er enghraifft, trwy sicrhau bod arweinwyr yn rhoi camau gweithredu cytûn ar waith i fynd i'r afael â phryderon ynghylch diogelu mewn modd amserol ac effeithiol.

Mae'r pennaeth yn gweithio gydag ystod gyfyngedig o staff i ymgymryd â gweithgareddau hunanwerthuso i lunio barnau am ansawdd gwaith yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys arsylwadau gwersi, craffu ar lyfrau disgyblion a gwybodaeth o holiaduron i ddisgyblion a rhieni. Hefyd, mae arweinwyr yn ystyried ystod o asesiadau athrawon a data profion. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnwys ystod ddigon eang o staff mewn gweithgareddau hunanwerthuso nac yn eu cynnal yn ddigon trylwyr. O ganlyniad, nid yw hunanwerthuso yn rhoi darlun cywir i arweinwyr o gryfderau'r ysgol na'i meysydd pwysicaf i'w gwella.

Mewn ychydig o achosion, mae gwaith gwella'r ysgol yn fuddiol. Er enghraifft, cydnabu arweinwyr fod angen gwella medrau Cymraeg ymhlith disgyblion, a rhoddwyd ystod o fentrau ar waith i fynd i'r afael â'r mater hwn. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw camau cyffredinol i wella'r ysgol yn cynnwys cyfranogiad manwl ystod ddigon eang o staff. O ganlyniad, mae gormod o aelodau staff nad ydynt yn gweld eu hunain yn rhan o brosesau gwella'r ysgol ac mae hyn yn lleihau effeithiolrwydd mentrau newydd. Yn ychwanegol, nid yw gweithgareddau hunanwerthuso yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais ar roi camau ar waith i sicrhau a gwella lles disgyblion, ond nid ydynt yn cydbwyso hyn yn erbyn meysydd eraill y gallai fod angen eu gwella ar frys. Er enghraifft, mae presenoldeb disgyblion wedi gostwng yn sylweddol dros y pedair blynedd ddiwethaf, ond eto nid yw'r ysgol wedi gweithredu'n effeithiol i wella hyn.

Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais addas ar sicrhau cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff. Maent yn trefnu sesiynau hyfforddi ar gyfer pob un o'r staff, sy'n effeithio'n briodol ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu mewn ychydig o feysydd. Er enghraifft, mae hyfforddiant ar gyfer pob un o'r staff ar ddefnyddio deunyddiau i gefnogi datblygiad rhif disgyblion wedi sicrhau dull cyson yn y cyfnod sylfaen. Mae'r ysgol wrthi'n dechrau cyflwyno system arsylwadau cymheiriaid sy'n galluogi athrawon i weithio gyda chydweithwyr i fyfyrio ar eu haddysgu, a'i wella. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i nodi'r gwahaniaeth a gaiff y gwaith hwn ar ansawdd cyffredinol yr addysgu. Yn gyffredinol, mae diffyg dull strategol i ddysgu proffesiynol. Mae trefniadau i nodi anghenion hyfforddi yn aneglur ac ni chaiff effaith dysgu proffesiynol ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion ei gwerthuso'n ddigonol. Nid yw'r trefniadau i rannu agweddau ar arfer dda wedi'u datblygu'n ddigonol, ac fe gânt eu rhwystro gan berthynas wael rhwng staff.

Mae'r pennaeth yn gweithio gyda llywodraethwyr yn dda i reoli adnoddau'r ysgol. Mae gan yr ysgol ddigon o offer ac adnoddau i gefnogi dysgu'n effeithiol yn y rhan fwyaf o feysydd y cwricwlwm. Gwna arweinwyr ddefnydd da o ardaloedd mewnol ac allanol ac maent yn darparu amgylchedd dysgu deniadol ar gyfer disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cynllunio'n strategol ar gyfer defnyddio cyllid grant i gynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/09/2019